IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 1 RHAGFYR 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire a/ac Hudson |

1 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ynghylch yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr a oedd wedi cael 6 phwynt cosb am yrru cerbyd heb yswiriant. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gyrrwr wedi cynorthwyo cymydog i gasglu cerbyd a brynodd yn y Barri. Roedd y gyrrwr wedi cytuno i yrru'r car yn ôl i Gaerdydd ar ôl i’r gwerthwr ddweud wrtho bod yswiriant arni i yrru os oedd yswiriant cerbyd cwbl gynhwysfawr ar y car. Cafodd y gyrrwr ei stopio gan un o swyddogion yr Heddlu. Dywedodd swyddog yr Heddlu wrtho nad oedd wedi'i yswirio a gofynnwyd iddo ymddangos yn y llys wedyn.

Dywedodd y gyrrwr y llediodd yn euog yn y llys. Roedd yn parchu'r gyfraith ac yn derbyn ei fod wedi gyrru'r cerbyd heb yswiriant. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch p’un a oedd wedi'i yswirio ac arweiniodd ei ddiofal at gamgymeriad. Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr ei fod yn yrrwr da, heb unrhyw farc ar ei gofnod ar wahân i'r digwyddiad hwn.

PENDERFYNWYD - Y câi’r gyrrwr rybudd ysgrifenedig am droseddau gyrru.

(2) Cais 2

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried achos gyrrwr a gyhuddwyd o ddwy gurfa. Dywedodd y gyrrwr fod y cyhuddiadau’n deillio o un digwyddiad domestig rhyngddo ef, ei bartner a'i llysfab. Dywedodd y gyrrwr na wnaed unrhyw niwed corfforol i'r partïon yn ystod y digwyddiad.

PENDERFYNWYD – y câi’r gyrrwr waharddiad 10 diwrnod oherwydd curfa.

(3) Cais 3

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr a gafodd gollfarn am godi gormod ar gwsmeriaid a gwrthod defnyddio'r mesurydd tacsi.  Dywedwyd wrth yr Aelodau y gofynnodd dau swyddog-fyfyriwr yr heddlu am gael eu cludo o Ganol y Ddinas i leoliad ym Mae Caerdydd yn ystod ymgyrch wedi ei chynllunio.  Codwyd cyfradd safonol o £15 ar y cwsmeriaid a gwrthododd y gyrrwr ddefnyddio'r mesurydd tacsi pan ofynnont iddo wneud hynny. Gofynnodd Aelod i'r gyrrwr beth fyddai'r pris fel arfer, atebodd y gyrrwr y byddai fel arfer tua £4-5.

Derbyniodd y gyrrwr ei fod wedi gwneud camgymeriad a sicrhaodd na fyddai byth yn digwydd eto.  Roedd yn fodlon ailhyfforddi ac roedd eisoes yn dioddef caledi ariannol o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried nifer o faterion disgyblu difrifol blaenorol yn ymwneud â'r gyrrwr hwn a arweiniodd at ymddangosiadau gerbron yr Is-bwyllgor.  Cafodd yr Is-bwyllgor grynodeb o'r digwyddiadau hynny.

PENDERFYNWYD – Diddymu Trwydded Gyrru Hacni / Llogi Preifat y gyrrwr am godi gormod a gwrthod defnyddio'r mesurydd tacsi.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm